

## Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth – Cwestiynau Cyffredin

### Cynnwys

Gwybodaeth gyffredinol am y cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth.....	2
1. Beth yw'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth? .....	2
2. Pam mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cynllun?.....	2
3. Pam nad benthyciad i landlordiaid/asiantiaid yw hwn? .....	2
4. Pryd bydd y cynllun yn dechrau?.....	2
5. Pwy fydd yn gyfrifol am y cynllun? .....	2
Gwybodaeth am y Benthyciad Arbed Tenantiaeth.....	3
6. Pwy all wneud cais am fenthyciad? .....	3
7. Faint y gall tenant ei fenthyg? .....	4
8. A all tenant wneud cais am fwy nag un benthyciad? .....	4
9. Pa ôl-ddyledion rhent sy'n dod o dan y cynllun?.....	4
10. Pwy sy'n cael yr arian sy'n cael ei fenthyg? .....	4
11. Sut y gall tenantiaid wneud cais am y cynllun?.....	4
Gwybodaeth bellach i denantiaid yn y sector preifat .....	5
12. Mae gen i ôl-ddyledion rhent, beth ddylwn i ei wneud? .....	5
13. Os oedd gen i ôl-ddyledion rhent sylweddol (o leiaf wyth wythnos) cyn 1 Mawrth 2020 ac nad wyf yn gymwys i gael Benthyciad Arbed Tenantiaeth, beth ddylwn i ei wneud?.....	5
14. Rwyf wedi penderfynu mai Benthyciad Arbed Tenantiaeth sy'n iawn i mi, beth ddylwn i ei wneud?.....	6
15. A ddylwn i roi gwybod i'm landlord/asiant fy mod i wedi gwneud cais am fenthyciad? .....	6
16. Rwyf eisoes wedi benthycio arian, a allaf wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth o hyd?.....	6
Gwybodaeth bellach i landlordiaid ac asiantiaid yn y sector preifat .....	6
17. A allaf orfodi fy nhenant i wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth? .....	6
18. Beth sy'n digwydd os na all tenant ad-dalu benthyciad? .....	7
19. Rwyf eisoes wedi rhoi hysbysiad troi allan i fy nhenant, nad yw wedi talu ei rent. A all wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth o hyd? .....	7
20. Ble y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 a Thai? .....	8

## **Gwybodaeth gyffredinol am y cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth**

### **1. Beth yw'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth?**

Mae'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat sydd ar ei hôl hi gyda'u taliadau rhent ac a fydd hefyd yn ei chael hi'n anodd talu eu rhent yn y dyfodol oherwydd COVID-19. Bydd yn cynnig benthyciad fforddiadwy, â llog o 1% APR, a gaiff ei ad-dalu dros gyfnod o hyd at bum mlynedd o ddyddiad cymeradwyo/ dechrau'r benthyciad.

Y landlord, neu ei asiant, fydd yn cael y benthyciad yn uniongyrchol, ar ôl i'r sawl sy'n gofyn am fenthyciad wneud cais llwyddiannus a'i fod wedi'i brosesu.

### **2. Pam mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cynllun?**

Rydym yn cyflwyno'r cynllun er mwyn cefnogi tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent oherwydd COVID-19. Bydd rhai tenantiaid ar ei hôl hi gyda'u rhent ac yn wynebu'r posibilrwydd o gael eu troi allan oherwydd hynny. Dylai'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth helpu tenantiaid i gadw to uwch eu pennau, a bydd yn sicrhau bod landlordiaid yn cael y rhent sy'n ddyledus iddynt.

### **3. Pam nad benthyciad i landlordiaid/asiantiaid yw hwn?**

Gyda'r Benthyciad Arbed Tenantiaeth, bydd y taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant am ôl-ddyledion rhent y tenant. Bydd hyn yn golygu bod y landlord neu'r asiant yn cael yr arian yn uniongyrchol, gan olygu nad yw'r tenant yn wynebu'r risg o gael ei droi allan am fod mewn ôl-ddyledion rhent difrifol. Er y byddai'n ddefnyddiol yn y byrdymor mewn rhai achosion, ni fyddai benthyciad i landlord na'i asiant yn mynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent y tenant yn uniongyrchol, ac nid yw'n sicrhau y bydd y landlord yn cael y rhent sy'n ddyledus iddo.

Bydd y benthyciad yn talu am ôl-ddyledion rhent neu daliadau rhent am y misoedd i ddod lle gallai'r tenant ei chael hi'n anodd eu talu – ni all fod yn gysylltiedig ag addasrwydd i rentu a/neu welliannau i'r eiddo.

### **4. Pryd bydd y cynllun yn dechrau?**

Bydd y cynllun yn cael ei lansio ar 7 Hydref 2020. Gellir cyflwyno ceisiadau tan 31 Mawrth 2021.

### **5. Pwy fydd yn gyfrifol am y cynllun?**

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fydd yn rheoli'r cynllun, a'r Undebau Credyd hynny sy'n cymryd rhan ledled Cymru fydd yn darparu'r benthyciad ac yn cefnogi'r ymgeisydd drwy gydol cyfnod y cynllun.

Mae undebau credyd yn ddewis amgen yn lle benthyciadau diwrnod cyflog a benthycwyr llog uchel eraill. Cânt eu diogelu gan Gynllun lawndal y Gwasanaethau Ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Undebau Credyd sy'n darparu benthyciadau cliciwch yma: <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/tsl/>

## Gwybodaeth am y Benthyciad Arbed Tenantiaeth

### 6. Pwy all wneud cais am fenthyciad?

Rhaid bod yn gymwys i gael benthyciad drwy'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid bod gan yr ymgeisydd denantiaeth ar gyfer cartref yng Nghymru
- Rhaid bod yr ymgeisydd yn denant yn y sector preifat
- **Nid** oedd yr ymgeisydd mewn ôl-ddyledion rhent sylweddol e.e. o leiaf wyth wythnos o ôl-ddyledion rhent cyn 1 Mawrth 2020
- Rhaid bod yr ymgeisydd mewn ôl-ddyledion rhent o 1 Mawrth 2020 neu rhaid bod yr ymgeisydd mewn ôl-ddyledion rhent o 1 Mawrth 2020 ac, ar adeg gwneud y cais, y bydd yn ei chael hi'n anodd talu ei rent yn y dyfodol (hyd at dri mis ymlaen llaw) o ganlyniad i COVID-19
- **Nid** yw'r ymgeisydd yn cael budd-dal tai na thaliadau costau tai drwy Gredyd Cynhwysol
- Rhaid bod landlord a/neu asiant yr ymgeisydd fod wedi ei gofrestru â Rhentu Doeth Cymru neu fod wedi'i drwyddedu ganddo
- Yn seiliedig ar incwm yr ymgeisydd, ac asesiad o fforddiadwyedd, rhaid ei fod yn gallu fforddio ad-dalu'r benthyciad
- Nid oedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth **na'i** gael drwy ddarparwr benthyciadau arall am y cyfnod o rent dan sylw

Mae tenantiaeth yn gytundeb rhwng y tenant a landlord, neu ei asiant. Cytundeb tenantiaeth yw'r contract rhwng y tenant a landlord/asiant.

Mae tenantiaeth a chytundeb tenantiaeth yn galluogi tenant i fyw mewn eiddo ar yr amod ei fod yn talu rhent ac yn dilyn y rheolau. Mae'r cytundeb tenantiaeth yn nodi telerau ac amodau cyfreithiol y denantiaeth. Gall y cytundeb fod yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Gall tenantiaeth fod yn un o'r canlynol:

- Am gyfnod penodol
- Yn gyfnodol (ar sail wythnosol neu fisol)

## 7. Faint y gall tenant ei fenthyg?

Mae'r benthyciad yn seiliedig ar allu'r tenant i'w ad-dalu dros gyfnod o hyd at bum mlynedd. Bydd yn gallu benthycio hyd at yr uchafswm o rent sydd arno, neu daliadau rhent y bydd angen iddo eu gwneud yn y dyfodol, ar yr amod y gall fforddio gwneud hynny.

## 8. A all tenant wneud cais am fwy nag un benthyciad?

Ni ddisgwylir i hyn ddigwydd, ond caiff achosion eu hystyried yn unigol a bydd unrhyw benderfyniad yn seiliedig ar asesiad o fforddiadwyedd.

## 9. Pa ôl-ddyledion rhent sy'n dod o dan y cynllun?

Rhaid nad yw'r tenant wedi bod mewn ôl-ddyledion rhent o wyth wythnos neu fwy cyn 1 Mawrth 2020.

Mae'r benthyciad ar gyfer tenantiaid sydd wedi cronni ôl-ddyledion rhent ers 1 Mawrth 2020, ac sydd wedi bod yn ei chael hi'n anodd eu had-dalu, neu a all ei chael hi'n anodd talu eu rhent yn y dyfodol oherwydd COVID-19. Gallai hyn fod oherwydd bod y pandemig wedi effeithio ar eu gwaith, fel y rhai sydd wedi bod ar ffyrlo, y rhai sydd ar gcontractau dim oriau, y rhai sydd wedi bod yn gwarchod neu'r rhai sydd wedi gorfod hunanynysu.

## 10. Pwy sy'n cael yr arian sy'n cael ei fenthyg?

Bydd y swm sy'n cael ei fenthyg yn cael ei drosglwyddo i'r landlord neu'r asiant ar ran y tenant. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi enw a manylion cyswllt y landlord neu'r asiant, a bydd yr Undeb Credyd yn cysylltu â'r landlord neu'r asiant i ofyn am fanylion banc fel bod modd trosglwyddo'r taliad yn uniongyrchol.

## 11. Sut y gall tenantiaid wneud cais am y cynllun?

Mewn amrywiaeth o ffyrdd;

- Gallant gysylltu ag Undebau Credyd yn uniongyrchol. Mae rhestr o rifau cyswllt ar gael yma: <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/tsl/>
- Gallent holi am gael benthyciad drwy gwblhau ffurflen ymholiadau ar-lein sydd ar gael yma: <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/tsl/>
- Gallent gael eu hatgyfeirio drwy ein cynllun Rhybudd Cynnar ar gyfer ôl-ddyledion rhent a mathau eraill o ddyled yn y sector rhentu preifat a weinyddir gan Cyngor ar Bopeth Cymru.
- Gallent hefyd gael eu hatgyfeirio at y cynllun gan eu landlord, asiant, ffrind, aelod o'r teulu neu awdurdod lleol.

- Mae taflenni ar gael i'w lawrlwytho a'u hargraffu ar wefanau'r Undebau Credyd sy'n cymryd rhan. Gallwch gael gafael ar y wybodaeth hon yma: <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/tsl/>

## Gwybodaeth bellach i denantiaid yn y sector preifat

### 12. Mae gen i ôl-ddyledion rhent, beth ddylwn i ei wneud?

Dylech siarad â'ch landlord neu'r asiant i drafod y posibilrwydd o gytuno ar gynllun ad-dalu yn uniongyrchol.

Gallech hefyd ffonio llinell gymorth Sector Rhentu Preifat Cyngor ar Bopeth Cymru ar 0300 330 2177. Bydd cynghorwyr cyfeillgar yn darparu gwasanaeth annibynnol, cyfrinachol am ddim i denantiaid ar sut y gallant wneud i'w harian fynd ymhellach a rheoli eu dyledion – y nod yw eu helpu i dalu eu rhent fel y gallant gadw to uwch eu pen.

Rhaid talu llog ar y Benthyciad Arbed Tenantiaeth, felly dylech ystyried yn ofalus a yw hyn yn iawn i chi cyn gwneud cais.

### 13. Os oedd gen i ôl-ddyledion rhent sylweddol (o leiaf wyth wythnos) cyn 1 Mawrth 2020 ac nad wyf yn gymwys i gael Benthyciad Arbed Tenantiaeth, beth ddylwn i ei wneud?

Gallech gysylltu â'ch Undeb Credyd agosaf a all eich helpu. Mae'r manylion cyswllt yma: <https://creditunionsofwales.co.uk/cy/find-my-nearest-credit-union/>

Gallwch hefyd ffonio llinell gymorth Sector Rhentu Preifat Cyngor ar Bopeth Cymru ar 0300 330 2177, lle bydd cynghorwyr cyfeillgar yn darparu gwasanaeth annibynnol, cyfrinachol am ddim i gynghori tenantiaid ar sut y gallant wneud i'w harian fynd ymhellach a rheoli eu dyledion – y nod yw eu helpu i dalu eu rhent fel y gallant gadw to uwch eu pennau.

Gallech hefyd gysylltu â Cyngor ar Bopeth Cymru mewn ffyrdd eraill, ar-lein yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/Cysylltu-a-ni/>

neu gysylltu ag un o gynghorwyr dyled **Cyngor ar Bopeth Cymru** ar-lein yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/sgwrsiwch-a-ni-ar-lein-am-ddyled/>

Hefyd, mae'r llinell gyngor gyffredinol ar gael ar y rhif canlynol:

Advicelink Cymru: 03444 772 020

(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae fel arfer brysuraf ben bore a diwedd y dydd. Nid ydynt ar agor ar wyliau cyhoeddus)

neu Text relay: 03444 111 445

#### **14. Rwyf wedi penderfynu mai Benthyciad Arbed Tenantiaeth sy'n iawn i mi, beth ddylwn i ei wneud?**

Dylech siarad â'ch landlord neu'r asiant i ddweud eich bod yn cymryd camau i dalu eich ôl-ddyledion rhent oherwydd bydd angen i Undebau Credyd gael gwybodaeth oddi wrthynt er mwyn prosesu'r benthyciad. Bydd hyn hefyd yn rhoi rhybudd ymlaen llaw iddynt, oherwydd gofynnir iddynt gadarnhau rhywfaint o wybodaeth, a fydd yn cael ei chyflwyno gyda'ch cais am fenthyciad.

#### **15. A ddylwn i roi gwybod i'm landlord/asiant fy mod i wedi gwneud cais am fenthyciad?**

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, gadewch i'ch landlord neu'r asiant wybod eich bod wedi gwneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth a rhybuddiwch nhw ymlaen llaw y bydd Undeb Credyd mewn cysylltiad i gadarnhau rhywfaint o wybodaeth, a fydd yn cael ei chyflwyno gyda'ch cais am fenthyciad.

#### **16. Rwyf eisoes wedi benthyc arian, a allaf wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth o hyd?**

Pan fyddwch yn gwneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth bydd cynghorydd yr Undeb Credyd yn trafod fforddiadwyedd y benthyciad â chi, felly bydd unrhyw arian rydych wedi'i fenthyc o'r blaen hefyd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar fforddiadwyedd Benthyciad Arbed Tenantiaeth hefyd.

### **Gwybodaeth bellach i landlordiaid ac asiantiaid yn y sector preifat**

#### **17. A allaf orfodi fy nhenant i wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth?**

Na allwch. Mae'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth yn wirfoddol a rhaid i'r tenant ddewis gwneud cais am fenthyciad.

Os nad yw eich tenant yn dymuno cael benthyciad drwy'r cynllun, neu os na all fforddio gwneud hynny, byddem yn awgrymu dweud wrtho am ffonio llinell gymorth Sector Rhentu Preifat Cyngor ar Bopeth Cymru ar 0300 330 2177, lle bydd cynghorwyr cyfeillgar yn darparu gwasanaeth annibynnol, cyfrinachol am ddim i gynghori tenantiaid ar sut y gallant wneud i'w harian fynd ymhellach a rheoli eu dyledion – y nod yw eu helpu i dalu eu rhent fel y gallant gadw to uwch eu pennau.

Gallai'r tenant hefyd gysylltu â Cyngor ar Bopeth Cymru mewn ffyrdd eraill, ar-lein yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/Cysylltu-a-ni/>

neu gysylltu ag un o gynghorwyr dyled **Cyngor ar Bopeth Cymru** ar-lein yma:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/amdanom-ni/contact-us/contact-us/sgwrsiwch-a-ni-ar-lein-am-ddyled/>

Hefyd, mae'r llinell gyngor gyffredinol ar gael ar y rhif canlynol:

Advicelink Cymru: 03444 772 020

(mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae fel arfer brysuraf ben bore a diwedd y dydd. Nid ydynt ar agor ar wyliau cyhoeddus)

neu Text relay: 03444 111 445

## **18. Beth sy'n digwydd os na all tenant ad-dalu benthyciad?**

Byddem yn disgwyl i'r Undeb Credyd ddangos trugaredd a dim ond cymryd camau ffurfiol i adennill y benthyciad sy'n weddill os bydd pob opsiwn a chynnig arall o gymorth wedi methu. Ni fydd unrhyw ddyled a all fod yn ddyledus gan y tenant i'r Undeb Credyd yn effeithio ar y landlord.

## **19. Rwyf eisoes wedi rhoi hysbysiad troi allan i fy nhenant, nad yw wedi talu ei rent. A all wneud cais am Fenthyciad Arbed Tenantiaeth o hyd?**

Nid oes dim byd yn atal tenant rhag gwneud cais am fenthyciad os ydych eisoes wedi rhoi hysbysiad troi allan iddo, ond dylech ystyried tynnu'r hysbysiad yn ôl os yw'r benthyciad yn golygu y caiff ôl-ddyledion rhent eu clirio. Os cafodd yr hysbysiad ei roi ar Sail 8 (ôl-ddyledion rhent difrifol), yna mae'n debygol na fydd yr hysbysiad yn ddilys mwyach oherwydd efallai na fydd yr ôl-ddyledion yn bodoli mwyach unwaith y bydd y benthyciad wedi'i dalu i'r landlord/asiant.

## 20. Ble y gallaf gael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 a Thai?

Mae ar gael yma: <https://llyw.cymru/cyngor-tai-y-coronafeirws>

Mae manylion am y cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth hefyd ar gael ar dudalen wybodaeth COVID-19 ar wefan Rhentu Doeth Cymru yma: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/covid19info/>